



Ffordd Nebo, Llanrwst, Conwy LL26 OSD
Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800

Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
Ebost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

Pennaeth / Head
Owain Gethin Davies

20/10/20

Annwyl Rhieni / Gwarcheidwaid,

Rwy'n gobeithio eich bod chi'n cadw'n saff ac yn ymdopi yn ystod yr amseroedd rhyfeddol rydyn ni'n mynd trwyddynt.

Fel y cyhoeddwyd ar 19 Hydref gan y Prif Weinidog, mae Cymru yn dechrau cyfnod clo byr a llym gydag ysgolion uwchradd yn unig i fod ar agor i ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 am yr wythnos sy'n dechrau 2il Tachwedd.

Yn ystod yr amser yma bydd yr ysgol yn parhau ar agor i'r holl staff a byddwn yn symud i ddysgu ar-lein ar gyfer Blynnyddoedd 9, 10, 11, 12 a 13. Mae hyn yn golygu y bydd y dysgwyr yn cyrchu'r holl waith trwy Google Classroom. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth yr wythnos nesaf gyda chyfarwyddiadau pellach ynghylch sut y bydd y dysgu ar-lein yn gweithredu. Ar gyfer y grwpiau blwyddyn na fyddant yn yr ysgol mae'n bwysig cofio nad gwyliau estynedig yw hwn, mae disgwyl iddynt weithio gartref am yr wythnos yma.

Fel ysgol, rydym yn hynod siomedig bod pump o'n grwpiau blwyddyn yn gweithio gartref am yr wythnos ar ôl hanner tymor, yn enwedig gyda'r rhan fwyaf o'r blynnyddoedd hyn yn derbyn arholiadau pwysig yn ystod y flwyddyn addysgol. Yn anffodus, mae hyn y tu hwnt i'n rheolaeth, ond byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau parhad dysgu effeithiol i'r disgyblion a'r myfyrwyr hyn.

Os oes gan eich plentyn o Flynyddoedd 9, 10, 11, 12 a 13 broblemau cyrchu dysgu ar-lein, rhowch wybod i'r ysgol fel y gallwn drefnu trefniadau eraill. Rhaid i ddisgyblion a myfyrwyr y rhoddyd dyfais ysgol iddynt yn ystod y cyfnod clo cyntaf ddefnyddio'r dyfeisiau hyn eto i gael mynediad at y gwaith ar-lein a osodwyd gan yr athrawon.

Pwyntiau allweddol

- Unwaith eto, bydd disgyblion a myfyrwyr sy'n derbyn pryddau ysgol am ddim yn cael arian wedi'i dalu i gyfrifon eu rhieni. Gwneir Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Disgyblion Uwchradd cymwys (Bl 9, 10, 11, 12 a 13) am y 3ydd wythnos. Gwneir taliad i deuluoedd ar y 5ed o Dachwedd 2020. Unrhyw bryderon ewch i - <https://www.conwy.gov.uk/pydcovid>
- Bydd Cludiant Ysgol ar gyfer Blwyddyn 7 ac 8 yn parhau fel arfer heb unrhyw newid i'r amserlen bysiau / tacsî.



Ffordd Nebo, Llanrwst, Conwy LL26 OSD
Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800

Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
Ebost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

Pennaeth / Head
Owain Gethin Davies

- Bydd disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 sy'n yr ysgol am yr wythnos ar ôl hanner tymor yn parhau i dderbyn cwricwlwm llawn, eang a chytbwys. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â'r canllawiau COVID-19 diweddaraf ac yn sicrhau diogelwch yr holl staff a disgyblion.
- Bydd staff bugeiliol yn gweithio dros y cyfnod hwn i sicrhau eu bod yn cysylltu ag unrhyw ddisgyblion yr amlygir bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Byddant hefyd yn cysylltu ag unrhyw ddisgyblion a myfyrwyr nad ydynt yn cyrchu'r gwaith ar-lein.
- Rhaid i unrhyw fyfyrwyr neu aelodau o gymuned ein hysgol sydd wedi cael cyfarwyddyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ynysu barhau i wneud hynny tan ddiwedd y cyfnod amser a amlygir yn eu llythyr.

Tra yn y cyfnod "cloi byr a llym" dros dro hwn, mae'n hanfodol bod pob aelod o gymuned ein hysgol yn dilyn y canllawiau a'r cyfyngiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel y gall y cyfnod hwn o gau'n rhannol wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ymlediad y firws yn y dyfodol. Rwy'n siŵr y byddwch chi i gyd yn ymuno â mi i obeithio mai'r mesurau y maent yn eu rhoi ar waith fydd yr olaf y bydd angen iddynt eu gosod arnom i gyd.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto, pan fydw'n yn derbyn arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser cyfeiriwch at Gwestiynau Cyffredin Cyfnod Atal y Coronafeirws Llywodraeth Cymru am unrhyw eglurhad pellach:

<https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin>

Cadwch yn ddiogel!
Dymuniadau gorau

Owain Gethin Davies
Pennaeth